

Dydd Llun, 26 Ebrill 2010

PÔL PINIWN GO WAHANOL YN RHOI LLE I WYDDONIAETH

Wrth i'r Etholiad Cyffredinol hawlio sylw'r genedl, mae Pwyllgor Gwyddoniaeth Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion 2010 newydd gynnal etholiad ychydig yn wahanol – i ganfod enw newydd i arddangosfa wyddonol fydd yn torri tir newydd ar faes prifwyl yr ieuenctid.

Gwyddon*Le* oedd yr enw a ddewiswyd yn dilyn pôl ar lein diweddar, yn curo enwebiadau eraill megis *Gwychoniaeth* ac *Y Pwerdy*.

"Gan y bydd arddangosfa wyddonol ar Faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni, roeddem am sicrhau ei fod yn gwneud ei farc a bod ganddo enw teilwng yn goron ar y digwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal yno," medd Angharad Thomas, Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Gwyddoniaeth Ceredigion 2010. "Felly bu i ni drefnu pôl ar lein ac yn dilyn ymateb gwych, yr enillydd clir oedd Gwyddon*Le*, sy'n ddisgrifiad gwych o'r hyn fydd yn y babell!"

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod, bydd digon yn Gwyddon*Le* fydd wrth fodd yr hen a'r ifanc. O arddangosfeydd gwyddonol i gystadlaethau, gan gynnwys gweithgareddau yn ymwneud â Chysawd yr Haul wedi ei ariannu gan STFC (Cyngor Adnoddau Gwyddoniaeth a Thechnoleg) gyda chefnogaeth gwyddonwyr o Brifysgol Aberystwyth a'r gymuned yn ehangach. Ond nid ar y Maes yn unig y bydd y digwyddiadau yma fel yr eglura Angharad Thomas,

"Yn yr wythnosau cyn yr Eisteddfod, bydd Gwyddon*Le* yn mynd ar daith ar hyd a lled Ceredigion, yn ymweld ag ysgolion ac yn annog disgyblion i feddwl eto am wyddoniaeth. Er enghraifft bydd Ysgol Cwrtnewydd ac Ysgol Llanddewi Brefi yn dod â gwyddoniaeth a dawns ynghyd. Yn dilyn sesiwn o gasglu gwybodaeth ar Gysawd yr Haul, bydd y coreograffydd, Jên Angharad yn gweithio gyda'r plant i greu dawns greadigol o'r enw *Gwyddawns*, wedi ei seilio ar eu canfyddiadau.

"Ac mewn prosiect tebyg, bydd disgyblion o un o ysgolion eraill y sir yn creu modelau o'r haul a'r planedau, eto wedi eu selio ar yr wybodaeth y maent wedi ei gasglu ar yr un pwnc. Bydd y modelau yma'n cael eu gosod o amgylch Maes yr Eisteddfod, felly cofiwch edrych amdanynt yn Llanerchaeron!"

Fe gynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron, Ceredigion rhwng 31 Mai a 5 Mehefin. Disgwylir 100,000 o ymwelwyr a 15,000 o gystadleuwyr i'r Maes i fwynhau'r ŵyl sy'n ddathliad o'r iaith a'r diwylliant Cymreig a'r talent ifanc yng Nghymru heddiw.

Diwedd

Cyswllt: Non Tudur Williams ar 07968 446369 / nontudur@urdd.org

- Bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ymweld ag Abertawe a'r Fro yn 2011 ac Eryri yn 2012

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, Eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd